# Enwebiadau Bwrdd CCB (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) Cwmpas 2025 - Datganiadau Personol.

Eleni, mae pum lle ar gael ar y bwrdd a derbyniwyd enwebiadau gan y pum aelod canlynol:

1. Jed Rual
2. Gareth Evans
3. Peter Tyndall
4. John Chown
5. Gareth Yeoman-Evans

Mae eu datganiadau personol isod.

## Jed Rual

Fel arweinydd sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, rwy'n angerddol dros wneud cyfraniad ystyrlon at newid cymdeithasol-ddiwylliannol-economaidd-amgylcheddol yng Nghymru a thu hwnt. Gan fy mod yn uniaethu fel aelod o'r gymuned LHDTC+ ac mae gen i brofiad bywyd o anabledd fel person awtistig ac rwy'n dod o gefndir economaidd-gymdeithasol is, rwy'n ymwybodol iawn o anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol eang, eu heffeithiau negyddol, a'r ffordd y mae entrepreneuriaeth a mentrau cymdeithasol yn alluogwr allweddol wrth ymateb i rai o'r heriau hyn.

Rwyf wedi gweithio i Brifysgol Caerdydd ers dros 8 mlynedd, lle'r wyf ar hyn o bryd yn Swyddog Trosglwyddo Technoleg yn arwain masnacheiddio ymchwil SHAPE (y Gwyddorau Cymdeithasol, y Dyniaethau a'r Celfyddydau er budd Pobl a'r Economi/Amgylchedd). Mae fy arbenigedd, yn bennaf, ym maes eiddo deallusol, masnacheiddio a chreu mentrau newydd, ac effaith. Rwy'n gweithio ar y cyd fel cyfaill creadigol a beirniadol i'r gymuned academaidd, gan gefnogi datblygu a masnacheiddio technolegau, cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau newydd neu well; mae effaith gymdeithasol, economaidd, ddiwylliannol ac amgylcheddol yn sbardun allweddol i lawer o'r rheiny rwy'n eu cefnogi. Mae gen i brofiad uniongyrchol o gefnogi creu mentrau cymdeithasol sy'n seiliedig ar ymchwil a rhwydwaith eang o gydweithwyr mewnol ac allanol dibynadwy. Rwyf wedi dylanwadu ar randdeiliaid allweddol i sicrhau bod manteision a gwerth masnacheiddio SHAPE yn cael eu cydnabod, gan ddatblygu piblinell o brosiectau effeithiol mewn disgyblaethau sydd yn aml heb gynrychiolaeth ddigonol mewn entrepreneuriaeth academaidd.

Rwy'n eiriolwr dros lywodraethu effeithiol, teg a thryloyw ac mae gen i ddiddordeb a phrofiad mewn risg, enw da, a rheolaeth ariannol. Rwy'n dal nifer o swyddi arweinyddiaeth, a byddaf yn defnyddio'r profiad hwn fel aelod o Fwrdd Cwmpas:

- Cyfarwyddwr, Nisien.ai Ltd.
- Cyfarwyddwr, Evidence to Impact Ltd.
- Aelod o'r Bwrdd, Y Ganolfan Astudiaethau Islam yn y DU, Prifysgol Caerdydd
- Aelod o Fwrdd Gweithrediadau'r Cyfrif Cyflymu Effaith, Prifysgol Caerdydd
- Aelod o'r Bwrdd, Aspect Network
- Cadeirydd, Cymuned Ymarfer Masnacheiddio Ymchwil, Aspect Network (2024-2025)

Gallaf gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ar lefel Bwrdd, gan ddarparu arweiniad, cefnogaeth a chyfeiriad strategol ystyrlon ochr yn ochr â chyd-aelodau'r Bwrdd. Rwy'n gweithio yn gydweithredol i sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu bodloni, bod cyllid yn cael ei reoli'n briodol, ac rwy'n eiriol yn allanol dros y sefydliadau a'r endidau rwy'n eu cynrychioli. Rwy'n arddel Cod Ymddygiad Sefydliad y Cyfarwyddwyr.

Ar hyn o bryd, rwyf hefyd yn Arweinydd Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, yn gyfrifol am hyrwyddo gweithle a gwasanaeth proffesiynol amrywiol a chynhwysol, sy'n ymgorffori arferion gorau'r sector o ran Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn trefnu hyfforddiant cynhwysfawr ar bynciau o bwys. Gallaf ddefnyddio fy mhrofiad personol o ymyleiddio i sicrhau bod pobl eraill yn cael eu haddysgu a'u cyfarparu â'r wybodaeth a'r offer angenrheidiol i sicrhau gweithle tecach i bawb.

Rwy'n eiriolwr dros ddatblygiad proffesiynol a dysgu gydol oes, rwyf wedi ymgymryd â chyrsiau rheoli ariannol achrededig i wella fy sgiliau a'm profiad mewn cyfrifeg ariannol a chyfrifeg reoli er mwyn datblygu fy effeithlonrwydd fel aelod Bwrdd ac arweinydd. Mae hyn wedi bod yn allweddol i'm gallu i ddadansoddi a dehongli cyfrifon cwmnïau a data ariannol yn effeithiol er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau sy'n foesegol, yn deg ac yn dryloyw, ac rwyf wedi gallu defnyddio hyn yn fy swyddi. Rwyf wedi sicrhau ac yn rheoli portffolio o gyllid cyhoeddus gwerth tua £200,000 gyda'r nod o greu effaith gymdeithasol, ddiwylliannol, economaidd ac amgylcheddol trwy fasnacheiddio.

Yn fy rôl broffesiynol, rwy'n hyrwyddo mentrau cymdeithasol yn weithredol fel llwybr i gyflawni effaith ystyrlon a pharhaol. Os byddaf yn llwyddiannus, rwy'n gobeithio y gallaf gael effaith ar wneud penderfyniadau strategol a llywodraethu yn Cwmpas, yn ogystal â chymhwyso'r gwersi sylweddol a ddysgais gan y Bwrdd a'r cwmni yn fy swydd i feithrin cydweithrediadau newydd, cyd-greu datrysiadau sy'n mynd i'r afael â heriau yng Nghymru, a lledaenu ecosystem o fentrau cymdeithasol sy'n seiliedig ar ymchwil er mwyn adeiladu Cymru decach, wyrddach, fwy cyfartal, yng Nghymru, i Gymru.

Rwyf wedi ymrwymo i werthoedd Cwmpas i fod yn gydweithredol, yn gefnogol, yn deg, yn onest, yn gadarnhaol, ac yn ysbrydoliaeth.

## Gareth Evans

Mae fy mhrofiad helaeth yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol, wedi rhoi dealltwriaeth ddofn i mi o faterion strategol, cyfyngiadau ariannol, a gwirioneddau gwleidyddol y cyflawnir deilliannau cadarnhaol ar gyfer dinasyddion oddi mewn iddynt. Mae fy ngyrfa wedi golygu y bu'n ofynnol i mi ddatblygu dealltwriaeth ddofn o'r ffactorau y mae cwmnïau cydweithredol yn ffynnu oddi mewn iddynt, gan gynnwys modelau perchnogaeth amgen, ymagweddau at bartneriaethau cymdeithasol, dadlau o blaid ffrydiau cyllido lluosog a'u rheoli, a chyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Cydweithredol:** Rwy'n credu mewn cydweithio er budd i'r ddwy ochr. Mae fy mhrofiad mewn rheoli perthnasoedd â phartneriaid allanol wedi fy addysgu am bwysigrwydd cydweithredu a gwaith tîm. Rwyf wedi datblygu pensaernïaeth lywodraethu a phrotocolau gweithio gyda Byrddau sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau ehangach y llywodraeth tra'n cynnal safbwynt annibynnol.

**Cefnogol:** Rwyf wedi ymrwymo i roi fy amser, fy arbenigedd a'm hanogaeth i gefnogi pobl eraill. Mae fy ymrwymiad parhaus i feithrin diwylliant cynhwysol a pharchus wedi bod yn rhan arwyddocaol o daith fy ngyrfa i ymgorffori ethos cyfle cyfartal ar lefel yr unigolyn, y tîm a'r sefydliad.

**Teg**: Rwy'n gwerthfawrogi amrywiaeth a democratiaeth, ac rwy'n angerddol am feithrin cynwysoldeb o fewn timau a sefydliadau. Trwy fy ngwaith, rwyf wedi creu diwylliant ar y cyd o gynwysoldeb lle mae rhanddeiliaid o gefndiroedd amrywiol yn cyfrannu at ddatblygu amcanion a rhaglenni. Mae elwa ar y gwahaniaethau hyn yn dwyn manteision o ran cyfuno gwahanol ffyrdd o weithio, safbwyntiau a phrofiadau.

**Uniondeb:** Uniondeb sydd wrth wraidd fy ethos proffesiynol. Rwy'n ymdrechu i fod yn agored a gonest ym mhopeth rwy'n ei wneud. Rwyf wedi hyrwyddo diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd yn fy ngwaith yn gyson, gan sicrhau cydweithio rheolaidd a chynhyrchiol rhwng rhanddeiliaid, sefydliadau cyflwyno, a llywodraeth leol a chenedlaethol.

**Cadarnhaol:** Rwy'n rhoi fy egni i gyflawni deilliannau. Rwyf wedi ymrwymo i archwilio syniadau newydd ac ymagweddau at fynd i'r afael â heriau cymhleth a gyrru newid cadarnhaol. Byddaf yn ymdrechu i gefnogi Bwrdd Cwmpas trwy ddull heriol ond sydd eto'n gadarnhaol.

**Ysbrydoledig:** Fy nod yw ysgogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd rheolaeth a chyrraedd eu potensial. Rwy'n hyrwyddwr arloesedd angerddol mewn cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ac rwyf wedi ymrwymo i greu effaith ystyrlon.

Rwy'n gyffrous iawn am y cyfle i gyfrannu at amcanion Cwmpas. Rwy'n hyderus y bydd fy sgiliau, fy ngwybodaeth, fy mhrofiad a'm hymroddiad i'ch gwerthoedd yn fy ngalluogi i greu effaith ystyrlon fel aelod o'r Bwrdd. Gyda'ch cefnogaeth chi ar gyfer fy enwebiad, byddaf yn

gweithio i sicrhau bod y gwerthoedd cydweithredol yn parhau i fod yn ganolog i wneud penderfyniadau ar draws arweinyddiaeth Cwmpas.

## Peter Tyndall

Mae fy ngyrfa wedi bod mewn gwasanaeth cyhoeddus yn unig. Rwyf wedi ymrwymo'n gryf i'r gwerthoedd sydd wedi bod yn sail i hynny. Mae ein cymunedau yng Nghymru yn brwydro ag effaith barhaus colli diwydiannau traddodiadol, ac mae cyfraddau anweithgarwch economaidd llawer ohonynt yn fwy na 50%, erbyn hyn.

Cyflogaeth gynaliadwy yw'r unig lwybr at adfywio, gan fod cynifer o ffactorau allweddol eraill fel iechyd a chyrhaeddiad addysgol yn cael eu pennu gan fynediad at waith. Nid yw datblygiad economaidd confensiynol wedi llwyddo, ac mae angen ymagwedd radical ac arloesol, y mae Cwmpas wedi'i arfogi'n dda i'w chyflawni.

Mae fy ngwaith diweddar fel Ombwdsmon yn Iwerddon ac yng Nghymru cyn hynny yn gofyn am yr uniondeb mwyaf, ond hefyd gallu i gydweithio â gwasanaethau cyhoeddus i yrru gwelliant. Rwyf wedi canolbwyntio ar ddeilliannau erioed a gallaf gyfeirio at lawer o newidiadau a wnaed o ganlyniad i'm gwaith. Ar ddechrau fy ngyrfa, roeddwn yn datblygu dewisiadau amgen yn lle gofal sefydliadol ar gyfer pobl ag anableddau deallusol, ac roeddwn i'n sylfaenydd dau o ddarparwyr gwasanaethau cyrff anllywodraethol mwyaf Cymru. Mae gen i gefndir mewn tai cymdeithasol, ac rwy'n aelod o Fwrdd Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos fy ymrwymiad i'r ddau ffactor sy'n sail i lwyddiant wrth ailadeiladu cymunedau, mynediad at dai fforddiadwy, yn ogystal â chyflogaeth gynaliadwy sy'n talu'n briodol.

Roedd fy ngwaith fel swyddog y Senedd, a'r Oireachtas (senedd) yn Iwerddon, yn golygu fy mod i'n agos iawn at y democratiaethau yn y naill leoliad a'r llall.  Mae'n fraint gweithio mewn rôl o'r fath mewn democratiaeth, ond roeddwn i hefyd yn weithgar iawn yn cefnogi cydweithwyr sy'n wynebu heriau mewn gwledydd lle roedd democratiaethau yn llai sefydledig. Rwy'n ystyriol iawn o'r bygythiad i'n democratiaeth, yn anad dim oherwydd nad oes gan gynifer o'n dinasyddion fynediad at waith.  Gall Cwmpas, trwy ei arfer, helpu atgyfnerthu gwerthoedd democrataidd yn wyneb y bygythiadau presennol.

Mae fy nghefndir mewn datblygu a rheoli gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau deallusol yn rhoi safbwynt penodol i mi ar faterion cydraddoldeb, a thra roeddwn i'n gweithio ym maes tai, bûm hefyd yn rheoli gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref, y gymuned teithwyr a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Pan oeddwn i'n Ombwdsmon yn Iwerddon, llwyddais i ennill awdurdodaeth dros wasanaethau preswyl ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a chyflwyno rhaglen allymestyn eang gyda staff yn bresennol ar lawr gwlad yn gyrru gwelliannau lleol a newidiadau mawr ym  mholisïau'r Llywodraeth.

Mae gennyf brofiad Bwrdd helaeth yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 1980au. Rwyf wedi sefydlu a chadeirio sefydliadau yng Nghymru, wedi cadeirio sefydliadau ar lefelau'r DU ac Iwerddon a'r

Byd, ac wedi cyfrannu'n weithgar at y sefydliadau yr wyf wedi bod yn aelod o'u Byrddau erioed. Yn Cwmpas, gallaf ddod â gwybodaeth ac arbenigedd o CV amrywiol a llwyddiannus, ffocws cryf ar lywodraethu da, dealltwriaeth dda o'r tirlun gwleidyddol lleol a gyrru deilliannau cadarnhaol yn seiliedig ar werthoedd cydweithredol. Rwy'n gweithio'n dda mewn tîm, yn gefnogol i gydweithwyr ac yn gallu herio mewn modd adeiladol. Byddwn yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan fel aelod o'r Bwrdd.

## John Chown

Rwyf wedi dangos fy ymrwymiad i werthoedd y Ganolfan trwy fod yn aelod o'r bwrdd rheoli ers tua 20 mlynedd. Rwy'n cefnogi amcanion Cwmpas yn llwyr ac yn credu ei fod wedi cyflawni llawer iawn dros y blynyddoedd i bobl a sefydliadau ledled Cymru ac yn gobeithio, ac yn disgwyl, y bydd llawer mwy yn cael ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Rwy'n gyfrifydd siartredig cymwys ac wedi bod yn rhan broffesiynol o ddarparu gwasanaethau sicrwydd, cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant yn y sector dielw gan gynnwys elusennau, undebau credyd a sefydliadau gwirfoddol eraill ers nifer o flynyddoedd.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r bwrdd a thrysorydd Cwmpas, fy ngweithgareddau gwirfoddol eraill ar hyn o bryd yw:

- Cadeirydd Grŵp Tai Cynon Tat.
- Ymddiriedolwr Sefydliad Bevan.
- Ymddiriedolwr Daring To Dream, yr Elusen Iechyd Emosiynol.
- Aelod o fwrdd Ynni Teg Cyf, cwmni ynni cymunedol.

Rwy'n credu bod fy ystod o brofiad yn y gwahanol weithgareddau hynny yn darparu nifer o fanteision a all gynorthwyo'r sefydliadau rwy'n ymwneud â nhw. Mae'r manteision hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth a phrofiad ariannol manwl.
- Gwybodaeth a gafwyd o fod yn aelod bwrdd/ymddiriedolwr i ystod o wahanol sefydliadau sy'n arwain at ddealltwriaeth o sut i fabwysiadu dull cydweithredol o wneud penderfyniadau strategol er budd gorau'r sefydliadau hynny.
- Bod yn gynghorydd allanol i amryw o sefydliadau yn y sector gwirfoddol a di-elw ac felly deall y materion a all effeithio ar y sefydliadau hynny a'r atebion posibl i'r problemau ymarferol a rheoleiddiol a all godi.

.

## Gareth Yeoman-Evans

Fel uwch weithiwr proffesiynol cyllid gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn y sector tai, gofal a chymorth, rwy'n angerddol am barhau â'm cyfraniad fel Aelod o Fwrdd Cwmpas.

Yn siaradwr Cymraeg rhugl yn wreiddiol o orllewin Cymru, rwyf bellach yn byw yn ne Sir Fynwy gyda fy ngwraig a'm dwy ferch. Rwy'n dod ag ymdeimlad cryf o le a phwrpas i'm gwaith, wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd cymuned, tegwch a chydweithio.

Rwy'n cael fy nghydnabod fel arweinydd arloesol ac ysbrydoledig, gyda’r gallu i ymgysylltu a dylanwadu ar ystod eang o randdeiliaid. Trwy gydol fy ngyrfa, rwyf wedi meithrin cysylltiadau cryf, parhaol ar draws sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol, gan ymdrechu bob amser i greu effaith ystyrlon.

Mae cydweithwyr yn fy nisgrifio fel rhywun sy’n hawdd mynd ato ac fel rhywun sy’n hawdd gweithio ag ef. Mae’r ffaith fy mod yn hyblyg ac yn agored i newid yn fy ngalluogi i ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau sy'n esblygu a chofleidio heriau newydd yn hyderus.

Rwy'n dod â phrofiad helaeth o lywodraethu ar lefel Bwrdd, gyda gallu sicr i ddehongli gwybodaeth gymhleth i gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol ac ysgogi gwelliant parhaus.

Yn fy rôl bresennol fel Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau yn Tai Hedyn, rwy'n hybu arloesedd a gwelliant parhaus, gyda ffocws ar effeithlonrwydd cost, canlyniadau o ansawdd, a llywodraethu cadarn. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Bwrdd i lunio a chryfhau ein fframweithiau ariannol, AD, rheoli risg, sicrwydd, gwerth am arian, a llywodraethu.

Ers ymuno â Bwrdd Cwmpas yn 2021, rwyf wedi mwynhau cyfrannu at ei genhadaeth yn fawr. Byddwn yn croesawu'r cyfle i barhau yn y rôl hon a chefnogi'r sefydliad i adeiladu economi decach, gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal.